

HUGHES, HUGH (1790 - 1863), arlunydd ac awdur

Enw: Hugh Hughes
Dyddiad geni: 1790
Dyddiad marw: 1863
Priod: Sarah Hughes (née Charles)
Rhiant: Jane Hughes
Rhiant: Thomas Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arlunydd ac awdur
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaerniaeth; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym Mhwll-y-gwichiaid, Llandudno (bedyddiwyd 20 Chwefror 1790), yn fab i Thomas a Jane Hughes. Addysgwyd ef gan ei daid, Hugh Williams, a gadwai ysgol yn y Meddiant, Llansantffraid Glan Conwy. Bu farw ei fam yn 1802, a'i dad yn fuan wedyn yn Lerpwl. Yno y dysgodd Hugh Hughes gerfio, a darlunio mewn olew; y gwaith cyntaf sydd gennym o'i law yw'r darlun hysbys o [John Evans](#) o'r Bala sydd yn y *Drysorfa*, 1812. Teithiodd Gymru yn 1819-21 i dynnu lluniau; argraffwyd y rhannau Saesneg (1819-20) o hanes ei deithiau yn *Wales (O.M.E.)*, iii, a'r rhannau Cymraeg (1820-1) yn *Cymru (O.M.E.)*, viii. Yn 1823, cyhoeddodd ei waith mwyaf adnabyddus, *The Beauties of Cambria*, 60 o ddarluniau. Yn y Meddiant y bu wrthi'n paratoi'r gwaith hwn, ond yr oedd eisoes yn gyfarwydd â [David Charles](#) (1762 - 1834), a dechreuodd gyhoeddi llyfrau a chylchgronau yng Nghaerfyrddin; *Yr Hynafion Cymreig*, 1823-4, *Yr Adolygydd*, 1823-4, a *Brut y Cymry* (un rhifyn), 1824. Ar 20 Chwefror 1827, priododd Sarah, merch [David Charles](#), ac aethant i fyw i Lundain (yn Soho); ond yn 1828 daeth yn storm ar Hugh Hughes am iddo (gyda '[Caerfallwch](#)' ac eraill) arwyddo deiseb yn ffafr rhyddfrenio'r Pabyddion. Mynnodd [John Elias](#) gan eglwys Methodistiaid Calфинаidd Jewin ddiarddel y deisebwyr, a chadarnhawyd hynny gan sasiynau'r Gogledd a'r Deheudir. Yr oedd Hugh Hughes eisoes yn Rhyddfrydwr, ond troes hyn ef yn Radical fflamboeth. Ymunodd â'r Annibynwyr (yn ddiweddarach, aeth at Frodyr Plymouth) ac aeth ati yn *Seren Gomer*, 1828, i ymosod yn ffyrnig ar awdurdodau'r Methodistiaid Calфинаidd ac yn bennaf ar [John Elias](#) - cyhoeddwyd yr ysgrifau'n bamffledyn, *Y Trefnyddion a'r Pabyddion*. Bu wedyn yn dadlau (yn *Seren Gomer* eto, 1830-2, dan y ffugenw 'Cristion') â [Ieuan Glan Geirionydd](#) ' ar y Degwm, y Dreth Eglwys, a Sefydliad Eglwysig yn gyffredinol. Daliodd i fyw yn Llundain am beth amser (y mae darlith ganddo i'r Cymreigyddion yn *Seren Gomer* 1831), ond erbyn 1835 yr oedd yng Nghaernarfon, yn cynorthwyo '[Caledfryn](#)' gyda'r *Seren Ogleddol* (1835) ac yn cychwyn y *Papur Newydd Cymraeg* byrhoedlog, 1836. Bu'n byw wedyn yng Nghaerlleon (1839), Abermaw (1841), Aberystwyth, a Malvern, lle y bu farw 11 Mawrth 1863. Cyhoeddodd amryw bethau yn y cyfnod hwn - yn eu mysg bregethau ei dad-yng-nghyfraith, gyda byr-gofiant - heb sôn am doreth o luniau a digrifluniau (yn enwedig ar bwnc 'Brad y Llyfrau Gleision').

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Enwogion Sir Gaernarfon (1922)

Oxford Dictionary of National Biography

NLW MSS, 1890, 6358

a'r cyfeiriadau uchod

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Hugh Hughes](#)

Gweithiau

Hugh Hughes, *Sermons by the late Rev. David Charles ... translated from the Welsh, with a memoir* (London 1846)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [28806212](#)

Wikidata: [Q16845399](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

